# Cyfarfod y Gweithgor ar lywodraeth leol
**28 Medi 2018, 14:00 – 16:00**
**Neuadd y Ddinas, Caerdydd**

**Cofnodion Drafft**

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Derek Vaughan ASE | Cadeirydd |
| Y Cynghorydd Debbie Wilcox | Arweinydd CLILC, Arweinydd Grŵp Llafur ac Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd |
| Y Cynghorydd Andrew Morgan | Llywydd CLILC ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn | Grŵp Plaid Cymru CLILC ac Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Ray Quant | Grŵp Annibynnol CLILC a Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Bob Greenland | Grŵp Ceidwadwyr CLILC a Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Mynwy |
| Y Cynghorydd Huw David | Dirprwy Lywydd CLILC ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Alun Davies AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Mark Drakeford AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid |
| Michael Plaut | Cadeirydd, CBI Cymru a chynrychiolydd busnes |
| Bethan Thomas | Pennaeth Llywodraeth Leol, UNSAIN Cymru a chynrychiolydd undebau llafur |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Peter Fox | Arweinydd Grŵp Ceidwadwyr CLILC ac Arweinydd Cyngor Sir Mynwy |
| Y Cynghorydd Emlyn Dole | Arweinydd Grŵp Plaid Cymru CLILC ac Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Y Cynghorydd Hugh Evans | Arweinydd Grŵp Annibynnol CLILC ac Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cynghorydd Rob Stewart | Dirprwy Arweinydd CLILC ac Arweinydd Dinas a Sir Abertawe |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Steve Thomas | Prif Weithredwr, CLILC |
| Chris Llewellyn | Dirprwy Brif Weithredwr, CLILC |
| Rachel Maycock | Cynghorydd Arbennig, Llywodraeth Cymru |
| Reg Kilpatrick | Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru |
| Claire Bennett | Dirprwy Gyfarwyddwr Trawsnewid a Phartneriaethau Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru |
| Debra Carter | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru |
| Kath Cannan | Llywodraeth Cymru |
| Paula James | Ysgrifenyddiaeth (Llywodraeth Leol) |
| Daniel Hurford | Ysgrifenyddiaeth (CLILC) |
| Ceri Reeves | CLILC, Gweinyddwr i Derek Vaughan ASE |

**Croeso a chyflwyniadau**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd, Derek Vaughan, bawb i'r cyfarfod a gwnaeth ychydig o sylwadau agoriadol i roi'r cyd-destun. Rhoddodd gyd-destun yr ychydig ddyddiau blaenorol o drafodaethau ar gyllido, a dywedodd y bydd gwaith y grŵp hwn yn bwysig iawn o ran parhau i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

1.2 Nododd y Cadeirydd fod cyfarfod anffurfiol wedi'i gynnal gyda dim ond aelodau'r grŵp llywodraeth leol, ond yn awr roedd yn croesawu Gaynor Richards, Michael Plaut a Bethan Thomas i'r grŵp. Nododd hefyd yr ymddiheuriadau a diolchodd i'r rhai sydd wedi cymryd eu lle, gan eu croesawu hwythau i'r cyfarfod.

1.3 Gofynnodd i'r ysgrifenyddiaeth sicrhau bod cofnodion yn cael eu cymeradwyo gan yr aelodau allanol yn ogystal â chan CLlLC ac aelodau llywodraeth leol.

**Papur 1: Cylch Gorchwyl Drafft**

2.1 Trafododd y grŵp y Cylch Gorchwyl (ToR) drafft a oedd wedi'i ysgrifennu'n dilyn trafodaethau rhwng CLlLC a Llywodraeth Cymru. Cafwyd cytundeb ar y ddogfen i raddau helaeth ond gofynnodd y Cadeirydd a oedd y tri aelod ychwanegol o'r grŵp o'r sectorau busnes, undebau llafur a gwirfoddol yn dymuno ychwanegu unrhyw sylwadau.

2.2 Cafwyd trafodaeth ar sail resymegol nodi'r angen 'awydd' am gydwasanaethau, yn ychwanegol at achos busnes. Yn dilyn y drafodaeth hon cytunwyd ar y Cylch Gorchwyl drafft.

**Papur 2: Cynllun Gwaith Drafft**

3.1 Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar ddyddiadau cyfarfodydd y dyfodol, ac yn benodol i gadarnhau dyddiad 30 Tachwedd mewn dyddiaduron, a hefyd i gadarnhau na fydd 11 Hydref yn bosibl. Nododd y Cadeirydd yr anawsterau wrth geisio dod o hyd i ddyddiad ychwanegol ddiwedd mis Hydref/dechrau Tachwedd gan fod nifer o opsiynau wedi'u hystyried eisoes. Ni ddiystyrodd y Cadeirydd y posibilrwydd o ddod o hyd i ddyddiad ddechrau Tachwedd, ond ni chadarnhaodd hynny gan ei bod yn anodd felly gan nad oedd dyddiad ychwanegol ar gael, bydd y cyfarfod nesaf ar 30 Tachwedd.

**Papur 3: Parch gan y Naill a'r Llall a Chydgyfrifoldebau – Nodyn gosod y cyd-destun**

4.1 Cyflwynwyd yr eitem hon gan y Cynghorydd Debbie Wilcox (DW), ac eglurodd fod y papur yn datgan os ydym am ddatblygu'r gyd-agenda hon, ni allwn wneud hynny oni bai ein bod yn dangos parch at y naill a'r llall ac yn meithrin partneriaeth gref rhwng llywodraeth genedlaethol a lleol, yn enwedig ar ôl Brexit.

4.2 Croesawodd DW ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i ddemocratiaeth a lleoliaeth, ond roedd yn amau i ba raddau roedd hyn i'w weld ar draws Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd DW yn teimlo bod y Cynllun Partneriaeth diwygiedig yn ddechrau cadarnhaol, ond fel y cadarnhaodd adroddiad blynyddol y cynllun, nad oedd hynny'n digwydd bob amser (fel y nodir yn y papur).

4.1 Roedd DW yn teimlo y gellid cryfhau'r ymgysylltiad hwnnw mhellach drwy gyfarfodydd rheolaidd rhwng y Prif Weinidog ac Arweinyddion y ddau awdurdod lleol ar hugain a hefyd drwy gyfarfodydd â'r Cabinet. Awgrymodd DW y byddai un neu ddau gyfarfod y flwyddyn â'r Prif Weinidog yn rhesymol. Roedd y Cynghorydd Andrew Morgan (AM) yn cefnogi'r awgrym hwn.

4.2 Mynegodd DW y farn bod angen i barch at y naill a'r llall wella ar lefel cysylltiadau ehangach ag Aelodau Cynulliad hefyd, a bod angen trafod hyn â grwpiau gwleidyddol y Cynulliad a'r comisiwn.

4.3 Roedd DW yn teimlo bod lle i godeiddio trefniadau llywodraethu, gwella cyfathrebu, cael gwell cysondeb a safonau, ac osgoi dyblygu. Mynegodd DW ddryswch ynglŷn â pham roedd gwahanol ddulliau o dalu cyflogau'n bodoli.

4.4 Nododd DW fod y Cynllun Partneriaeth yn cynnwys sawl nodwedd o Siarter Hunanlywodraethu Lleol Ewrop, a mynegodd y farn y byddai mynd â hyn gam ymhellach drwy fabwysiadu'r Siarter yn symbolaidd, ac y byddai'n cryfhau gweithio mewn partneriaeth yn sylweddol.

4.5 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn gweld y Siarter Ewropeaidd fel cam olaf ar y llwybr i ddiwygio, ac nid y cam cyntaf. Awgrymodd fod angen i ni fynd drwy broses ddiwygio'n gyntaf, ac yna gellid edrych ar y siarter fel sail i'r system newydd honno.

4.6 Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd y Cyngor Partneriaeth (CP) i gynnal y berthynas â llywodraeth leol, a mynegodd ei awydd i ganolbwyntio ar wneud i'r fforwm hwnnw weithio'n well, yn hytrach na chreu rhywbeth newydd.

4.7 Dywedodd Bethan Thomas (BT) fod y papur Parch gan y Naill a'r Llall yn cyfeirio'n unig ar y berthynas a gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol, ac y byddai'n ychwanegu gwerth drwy ddangos pwysigrwydd undebau llafur yng Nghymru. Os mai'r bwriad oedd i'r papur fod yn sail i waith y Gweithgor yna dylai'r papur fod yn sail i'r berthynas ar gyfer yr holl aelodau. Nododd BT, er enghraifft nad safbwynt cenedlaethol Unsain oedd gwrthwynebu uniadau, fel na allai'r cynrychiolydd undebau llafur BT gytuno â'r rhan honno o'r papur a oedd yn dweud bod llywodraeth leol yn anghytuno â'r cynigion i uno a gofynnodd am i'r geiriad adlewyrchu'r safbwynt gwahanol hwnnw.

4.8 Mynegodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn (EAG) a'r Cynghorydd Bob Greenland (BG) bryderon am safbwyntiau gwahanol rhai undebau llafur ar lefel leol, o'i gymharu â safiad cenedlaethol eu hundeb, a dywedwyd fod anghysonderau o'r fath yn gallu achosi anawsterau a rhwystredigaeth i lywodraeth leol wrth ddelio â hyn.

Nododd Steve Thomas (ST) fod Cyngor Partneriaeth y Gweithlu, yn hytrach na'r gweithgor, yn fforwm mwy priodol i roi sylw i faterion yn gysylltiedig â'r gweithlu ac i reoli cysylltiadau rhwng Llywodraeth Cymru, cyflogwyr llywodraeth leol a'r undebau llafur.

4.9 Trafododd EAG fater teithio o'r Gogledd i gyfarfodydd, a chytunodd Ysgrifennydd y Cabinet y dylai cyfarfodydd y CP symud o gwmpas y wlad.

4.10 Atgoffwyd yr aelodau gan Rachel Maycock (RM) y bydd y papur hwn yn ôl ar yr agenda ym mis Tachwedd sy'n golygu y bydd cyfle i drafod y manylion eto.

4.11 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd yn ystyried y materion yn ymwneud â chyfarfodydd â'r Prif Weinidog a'r Cyngor Partneriaeth.

4.12 Dywedodd MP y dylai'r berthynas rhwng llywodraeth leol a'r gymuned fusnes fod yn un well. Nododd fod teimlad weithiau eu bod ar ochr wahanol, ond bod angen parch ar y ddwy ochr. Roedd hefyd yn cefnogi pwynt BT bod angen i'r papur hwn adlewyrchu holl aelodau'r Gweithgor. Dywedodd Gaynor Richards (GR) fod y sector gwirfoddol a chymunedol yn edrych ar lywodraeth leol fel un o'i bartneriaid allweddol, a bod ganddynt agenda gyffredin, a bod y sector gwirfoddol yn awyddus i gydweithio'n fwy clos.

4.13 Gofynnodd y Cadeirydd i Daniel Hurford (DH) ailedrych ar y papur, a gofynnodd i'r aelodau i gyd i gysylltu â Daniel gyda'u barn a'u cynigion.

**Papur 4 – Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**

5.1 Cafwyd diweddariad gan Lisa James (LJ) ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (y Bil). Dywedodd ein bod yn dynesu at ddiwedd y cyfnod drafftio, a bod dogfennau cysylltiedig yn cael eu paratoi.

5.2 Eglurodd LJ yr awgrym a wnaethpwyd yn dilyn trafodaethau cynharach i ddileu'r eitemau canlynol, yn amodol bod CLILC yn cynhyrchu canllaw:

- Hawl i'r cyhoedd i recordio ac i drydar ar gyfarfodydd
- Trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer Aelodau Cabinetau.

5.3 Nid yw'r canllaw'n derfynol eto felly ar hyn o bryd mae'r darpariaethau hyn yn ymddangos yn y Bil drafft. Mae darpariaeth arall, rôl y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) yn achos cyflogau uwch swyddogion yn destun negodiadau ar wahân.

5.4 Ychwanegodd LJ fod y papur yn anfwriadol wedi hepgor uno gwirfoddol, a bod y Bil drafft yn cynnwys darpariaeth i alluogi dau neu fwy o awdurdodau lleol i gyflwyno cais ar unrhyw adeg i uno'n wirfoddol, fel y cyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Gorffennaf 2018.

5.5 Dywedodd y Cadeirydd fod cysylltiad rhwng y Bil a'r Papur ar Bwerau Ychwanegol a Hyblygrwydd. Enghraifft o hyn yw bod yr olaf yn galw am y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (GPOC) ar gyfer awdurdodau lleol, ond mae hynny eisoes yn rhan o gynnwys y Bil arfaethedig.

5.6 Cafwyd trafodaeth ar yr angen i gadw golwg ar amserlen y Bil gan fod cam 2 yn debygol o fod ar ôl toriad haf 2019. Nid oes hyblygrwydd yn yr amserlen gan fod hyn yn cael ei benderfynu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

5.7 Tynnodd y Cynghorydd Ray Quant (RQ) sylw at bwynt yn y ddarpariaeth ddrafft 'Hawl y cyhoedd i wneud sylwadau yng nghyfarfodydd cynghorau cymuned'

Cadarnhaodd LJ y byddai gwaith yn cael ei wneud gydag Un Llais Cymru i gytuno ar ffordd briodol ymlaen.

5.8 Nododd EAG y ddarpariaeth i brif awdurdod i ddewis rhwng y Systemau etholiadol Cyntaf i'r Felin a Phleidlais Sengl Drosglwyddadwy, a gofynnodd oni fyddai'n well i bawb gael yr un system. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd bod awdurdodau lleol yn cael y pŵer i symud i wahanol system o ethol os oedd ganddynt ddau draean o fwyafrif i wneud hynny.

5.9 Croesawodd y Cynghorydd Huw David (HD) y penderfyniad i ymestyn hawliau pleidleisio i rai 16 a 17 oed. Cafwyd trafodaeth ar roi pleidlais i garcharorion, drwy'r post, i rai sydd wedi cael dedfrydau byr ac y byddai eu tymor yn y carchar yn dod i ben yn ystod tymor y weinyddiaeth llywodraeth leol honno. Nodwyd fod hwn yn faes anodd ac na fyddai darpariaethau'n cael eu cynnwys yn y Bil i gyflwyno hyn. Cadarnhaodd LJ y byddai'r hawl i bleidleisio i garcharorion Cymreig yn unig. Codwyd mater menywod mewn carchardai y tu allan i Gymru gan Ysgrifennydd y Cabinet, a thrafodwyd y pwnc hwnnw.

5.10 Holodd AM am y cynlluniau deisebau, a chadarnhaodd LJ fod y cyfeiriad yn cyfeirio at gynlluniau deisebau ar-lein ac mai'r bwriad oedd diddymu pleidleisiau cymunedol. Mynegodd AM bryderon ynglŷn â'r perygl y gallai cynlluniau deisebau ar-lein fod yn agored i gael eu camddefnyddio, a chadarnhaodd LJ y byddai angen canllaw manwl ac y byddai'n rhaid cytuno ar ddull synhwyrol.

5.11 Cafwyd cynnig gan Steve Thomas (ST) i ddynodi Prif Weithredwr awdurdod lleol fel Swyddog Canlyniadau'r awdurdod, a'r mater o ddiddymu ffioedd y swyddog canlyniadau. Holodd ST beth fyddai'r effaith ar Brif Weithredwyr yr oedd eu telerau ac amodau cyflogaeth presennol yn cynnwys rôl Swyddog Canlyniadau, a hefyd a fyddai ffioedd yn cael eu hailddosbarthu i eraill sy'n gweithio ar etholiadau.

5.12 Dywedodd LJ fod hyn yn gymwys i etholiadau llywodraeth leol a'r Cynulliad Cenedlaethol a bod y system bresennol yn un feichus i bawb, a bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i edrych ar ffyrdd gwahanol o ddarparu cyllid ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Nid gwneud arbedion oedd bwriad diddymu'r ffi bersonol a gallai cyfanswm y swm sydd ar gael i redeg yr etholiadau hyn gael ei ddosbarthu mewn ffyrdd gwahanol, a symlach. Y bwriad yw ymgynghori â llywodraeth leol ar y mater cyn hir.

5.13 Dywedodd AM fod cyngor RhCT wedi cymryd y ffi oddi ar eu Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau lleol. Yn yr achos hwnnw, roedd y Cyngor wedi penderfynu mai'r swyddog mwyaf priodol i weithredu fel Swyddog Canlyniadau oedd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, ac nid y Prif Weithredwr. Awgrymodd AM y dylai pob awdurdod lleol allu dewis pwy sydd fwyaf addas i ymgymryd â rôl y Swyddog Canlyniadau gan fod sefyllfaoedd lleol yn amrywio.

5.14 Dywedodd AM nad oedd yn cytuno y dylai uwch swyddogion gael ffi Swyddog Canlyniadau gan eu bod yn ennill cyflogau chwe ffigur eisoes. Roedd yn teimlo os dylai ffi gael ei thalu yna dylai fynd i staff ar gyflogau is sy'n gwneud llawer o waith ar etholiadau.

5.15 Holodd DW am ddirymu darpariaethau yn ôl hanner neu draean, a chafwyd eglurhad gan LJ. Cadarnhaodd DW ei bod yn cefnogi'r ddarpariaeth honno.

5.16 Symudodd y Cadeirydd ymlaen i fater Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol, ond ni chafwyd dim sylwadau ar y mater.

5.17 Codwyd mater diogelwch personol gan DW, a phwysigrwydd peidio â rhyddhau cyfeiriadau Aelodau Etholedig yn gyhoeddus. Cytunwyd mai dim ond cyfeiriadau a rhifau ffôn swyddogol ddylai gael eu cyhoeddi.

5.18 Symudodd y Cadeirydd ymlaen i'r eitem ar Ddyletswyddau ac Ymddygiad Aelodau, ac unwaith eto ni chafwyd dim sylwadau ychwanegol gan y grŵp.

5.19 Gofynnodd ST am y pŵer i alluogi, ac ymatebodd LJ.

5.20 Cododd BT fater y ddarpariaeth 'Dyletswydd i benodi Prif Weithredwr ac i ddarparu digon o staff ac adnoddau eraill' a sut yr oedd hynny'n cael ei ddehongli. Ymatebodd LJ drwy ddweud bod y geiriad yn efelychu Deddf 1989. Yr unig beth mae'r ddarpariaeth yn ei wneud yw ailenwi 'Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig' fel 'Prif Weithredwr'. Cyfeiriodd BT at integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol, a'i bod yn teimlo bod angen cydnabyddiaeth bod ar wasanaethau statudol ar lawr gwlad angen lefelau digonol o staff ac adnoddau. Roedd DW yn cytuno, a dywedodd EAG yr hoffai bob cyngor gael digon o staff i redeg eu gwasanaethau.

5.21 Ychwanegodd HD o ran cyfrifyddion, fod gofyniad i gadarnhau lefelau digonol o adnoddau er mwyn darparu gwasanaethau statudol. Roedd yn teimlo y dylai hyn hefyd gynnwys gwasanaethau iechyd sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol gyda mwy o gydweithio agos â thimau sy'n cael eu cyflogi ar y cyd.

5.22 Cododd BT fater diogelu at y dyfodol ac nad oedd yn ddigon i edrych ar wasanaethau llywodraeth leol fel maent yn cael eu darparu'n awr, ond pa wasanaethau fydd eu hangen ymhen 10 mlynedd, a sut fyddant yn cael eu darparu. Dywedodd fod angen i'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau ffurfio hynny, ac nid ymateb yn unig iddo.

5.23 Cytunodd Reg Kilpatrick (RK), a dywedodd fod y ffurf y geiriau yn y cymal yn cyfeirio at sefyllfa benodol iawn, h.y. rôl Pennaeth Gwasanaethau Cyflogedig. Mae dadl ehangach yn mynd ymlaen ar draws llywodraeth leol. Awgrymodd RK y gallai fod yn fuddiol i swyddogion i friffio aelodau o'r grŵp sydd y tu allan i lywodraeth leol ar y Bil gan fod llawer o'r darpariaethau hyn a'u hanes yn gyfarwydd iawn i'r rhan fwyaf o'r grŵp. Croesawodd BT y cynnig hwn.

5.24 Gofynnodd y Cadeirydd i LJ i ddosbarthu'r union eiriad sy'n gysylltiedig â phenodi Prif Weithredwyr i'r grŵp er gwybodaeth.

5.25 Dywedodd DW y dylai llywodraethu a pherfformiad Prif Awdurdodau fod yn llai rhagnodol ac yn fwy seiliedig ar egwyddorion dylunio.

5.26 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yr hoffai weld llywodraeth leol yn ymgymryd â rôl fwy o ran rheoli ei berfformiad ei hun a bod trafodaethau ar ailgyflwyno trefniadau

cenedlaethol i gynnig cymorth gwell i lywodraeth leol, a allai gael eu hariannu gan Llywodraeth Cymru.

5.27 Roedd RQ yn ei weld fel ailgyflwyno'r hyn a oedd ar gael cyn i'r cyllid gael ei dynnu oddi arnynt, gydag adolygiadau llwyddiannus iawn gan gymheiriaid yn flaenorol.

5.28 Nododd ST ei fod yn teimlo bod CLILC yn ailgodi 'Wal Tsieineaidd' yn ei sefydliad i wahanu gweithgarwch gwleidyddol a chymorth gwella. Dywedodd y dylai pob awdurdod gynnal adolygiad gan gymheiriaid, ond na ddylai'r rhain fod yn ofyniad statudol ond yn hytrach dylid cael ymrwymiad cenedlaethol gwirfoddol bod pob awdurdod yn cael adolygiad gan gymheiriaid.

5.29 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn anghytuno â'r farn hon, ac roedd o blaid creu strwythur mwy ffurfiol ar gyfer y broses.

5.30 Dywedodd y Cadeirydd yr ymddengys fod cytundeb mewn egwyddor i greu trefniadau perfformiad newydd, ac ar bwysigrwydd cydweithio ar y manylion.

5.31 Dywedodd HD fod yr adolygiad lefel gwasanaeth gan gymheiriaid o Wasanaethau Cymdeithasol yn ei awdurdod ef wedi bod yn fuddiol dros ben, ac roedd yn teimlo y dylid cael proses hunan asesu flynyddol mewn Addysg.

5.32 Symudodd AM y drafodaeth ymlaen at Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC). Dywedodd ei fod yn credu bod PGC Cwm Taf yn gweithio'n dda, heblaw yn achos arian, a disgrifiodd yr anawsterau a gafwyd wrth geisio cael pob parti i gymryd perchnogaeth ac i gyfrannu arian i helpu'r BGC.

5.33 Yna soniodd Ysgrifennydd y Cabinet am gymhlethdod diangen llywodraeth a'r angen i fod yn ddigyfaddawd er mwyn cael gwared ar haenau o fiwrocratiaeth a lleihau pwysau llywodraethu yng Nghymru.

5.34 Dywedodd ST ei fod yn credu bod gan Lywodraeth Cymru gyfle i newid hynny drwy'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ond nad oedd wedi manteisio ar y cyfle hwnnw.

5.35 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod angen i ni edrych yn fanwl ar gymhlethdodau llywodraethu a gweithio mewn partneriaeth ac nad oedd yn dderbyniol, er enghraifft, i beryglu colli gweithwyr cymdeithasol i dalu am glercod pwyllgorau.

5.36 Gofynnodd ST a oedd hynny'n argymhelliad ar gyfer y grŵp, ac awgrymodd y Cadeirydd eitem ar gymhlethdod llywodraethu a gweithio mewn partneriaeth ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y grŵp ym mis Tachwedd.

5.37 Dywedodd MP y byddai'r gymuned fusnes yn cytuno â'r awgrym i edrych yn fanylach ar hyn. Roedd yn awyddus i weld y grŵp yn dewis o leiaf un maes lle gellid gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

5.38 Dywedodd RK y byddai'n fuddiol i nodi ychydig o faterion pwysig i'r grŵp edrych arnynt fel rhan o'r pwyslais i ganolbwyntio ar leihau cymhlethdod. Cadarnhaodd y

Cadeirydd y byddem yn defnyddio'r papur ar gymhlethdod llywodraethu ar gyfer trafodaeth gychwynnol, ac yna'n edrych arno eto mewn cyfarfod diweddarach.

5.39 Symudodd y drafodaeth ymlaen at y ddarpariaeth yn y Bil drafft 'Pwerau i Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllaw statudol ar faterion y gweithlu' a mynegodd BT bryder y byddai hyn yn cymryd lle'r bartneriaeth gyfartal a sicrhawyd rhwng cyflogwyr ac undebau llafur drwy Gyngor Partneriaeth y Gweithlu (WPC). Eglurodd LJ a RK y byddai hyn yn rhoi'r canllaw gan Gyngor Partneriaeth y Gweithlu ar seiliau statudol.

5.40 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Llywodraeth Cymru yn lansio ymgynghoriad ar ddyfodol yr Awdurdodau Tân ac Achub yn ystod y misoedd nesaf.

5.41 Bu EAG ac AM yn trafod mater toriadau ariannol ac effaith hynny ar Awdurdodau Tân ac Achub. Dywedodd AM nad oedd yn dymuno ei weld yn cael effaith ar ddiogelwch, ond mynegodd bryderon fod toriadau blaenorol i gyllidebau Awdurdodau Tân ac Achub wedi golygu eu bod wedi gorfod troi at awdurdodau lleol mewn ymdrech i gau'r bwlch cyllido.

**Papur 5 – Pwerau a hyblygrwydd i lywodraeth leol – blaenoriaethau cychwynnol**

6.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem a nododd y cysylltiadau â'r eitem flaenorol ar yr agenda ar Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Nododd y Cadeirydd fod y papur yn cynnwys (paragraff 7) y pwyntiau a grybwyllwyd gan lywodraeth leol fel blaenoriaethau i'w hystyried ar gyfer newid deddfwriaethol, a gwahoddwyd sylwadau gan aelodau ar y pwynt hwn.

6.2 Dywedodd BT na fyddai undebau llafur yn derbyn yr holl bwyntiau a restrwyd. Tynnodd sylw'n benodol at y pwyntiau bwled canlynol fel rhai lle'r oedd angen eglurhad pellach:

- 'Pŵer i benderfynu ar gyflog a phenodiad uwch swyddogion, heb rôl i gorff allanol sy'n gwneud argymhellion'. Dywedodd BT nad oedd yn ymwybodol bod trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn gydag undebau llafur. Ychwanegodd fod angen eglurhad ar yr hyn a olygir wrth 'uwch swyddogion'.

- 'Pwerau i awdurdodau lleol i greu endidau eiddo hyd braich i gyflymu datblygiad safleoedd a mangreoedd strategol i hybu canlyniadau'r Bargeinion Twf'. Dywedodd BT yr hoffai weld mwy o drafod ar y pwynt hwn i sicrhau cydymffurfiaeth â thelerau ac amodau ar gyfer aelodau undebau a materion fel caffael moesegol.

- 'Llacio rheolau ac atebolrwydd grantiau ar gyfer rhaglenni diwygio cymdeithasol a gwrthdlodi'. Dywedodd BT y bydd rhaglenni gwrth-dlodi'n bwysicach fyth yn y dyfodol felly roedd yn cwestiynu'r hyblygrwydd hwn.

6.3 Cynigiodd RK friffio BT, GR a MP cyn y cyfarfod nesaf.

6.4 Ychwanegodd BT fod cyfle i gael strwythur Cyd-gyngor Cenedlaethol Cymru gyda'r pŵer i negodi'n uniongyrchol ar gyflogau a thelerau ac amodau, ac awgrymodd y

gellid rhoi hynny ar frig yr agenda. Dywedodd ST na fyddai CLILC yn cefnogi Cyd-gyngor yng Nghymru.

6.5 Dywedodd y Cynghorydd Bob Greenland (BG) y byddai o blaid cael rôl i lywodraeth leol yng 'ngoruchwyliaeth ddemocrataidd o'r GIG drwy leoli pwerau Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) o fewn llywodraeth leol' fel a geir ym mharagraff 7 o'r papur.

6.6 Eglurodd y Cadeirydd fod y rhestr hon o flaenoriaethau wedi deillio o CLILC. Ychwanegodd y byddai pwynt y CICau yn fater i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

6.7 Dywedodd DW mai hepgoriad nodedig o'r rhestr o flaenoriaethau ym mharagraff 7 oedd y cais i drosglwyddo pwerau sy'n gysylltiedig ag iechyd cyhoeddus i lywodraeth leol. Dywedodd mai'r rheswm am hyn yw am ei fod wedi cael ei wrthod gan Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod ei araith i Gyngor CLILC.

6.8 Roedd Ysgrifennydd y Cabinet o blaid sefydliadau democrataidd lleol yn goruchwylio gwasanaethau cyhoeddus eraill ac i wneud penderfyniadau ynghylch cymunedau. Dywedodd hefyd y byddai wedi ysgrifennu rhestr hwy o bwerau a hyblygrwydd pe bai wedi bod mewn llywodraeth leol. Hoffai weld llywodraeth leol yn gwneud mwy, yn hytrach na llai.

6.9 Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oedd yn dymuno cael dadl ar strwythurau a chyflogau ond ei fod am gael dadl ar ddarparu gwasanaethau yn y gymuned. Nododd ei bod yn ymddangos y gallai llywodraeth leol gael rôl graffu ehangach, heb ei chyfyngu i'r gwasanaethau hynny sy'n cael eu darparu gan awdurdodau lleol.

6.10 O ran codi trethiant, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod o'r farn fod cytundeb cyffredinol y dylid delio â threth dwristiaeth ar lefel leol, yn hytrach na chenedlaethol, ond o fewn fframwaith cenedlaethol. Ychwanegodd ei fod yn credu y gallai awdurdod lleol wedi'i rymuso weithredu mwy o bŵer na'i gyfrifoldebau statudol.

6.11 Soniodd DW a ST am bwysigrwydd cyflog cyfartal am werth cyfartal, a'r gwahaniaeth rhwng lefelau cyflog ar gyfer gwahanol rolau mewn gwasanaeth cyhoeddus, er enghraifft, Arweinyddion Cynghorau a Chadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion Byrddau Iechyd.

6.12 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi comisiynu adroddiad anffurfiol gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRP) ar gydnabyddiaeth ariannol cynghorau a dywedodd yr hoffai weithio â llywodraeth leol i benderfynu sut i ddatblygu'r gwaith. Cadarnhaodd y byddai'n hapus i'r adroddiad hwn i gael ei rannu â'r Grŵp. Ychwanegodd ei fod o'r farn y dylid cael cynghorwyr llawn amser, sy'n cael eu talu'n well ond roedd yn sylweddoli y byddai goblygiadau ynghlwm wrth hyn o ran cost a ffurf awdurdodau. Roedd yn credu y byddai cyhoeddi'r adroddiad yn galluogi dadl gyfoethog a lliwgar.

6.13 Roedd cytundeb y byddai adroddiad yr IRP yn ddefnyddiol. Ychwanegodd AM y byddai'n cefnogi Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol i 'dynnu'r

gwleidyddol allan o gyflogau cynghorwyr', ond nad yw'r system bresennol yn gwneud hynny gan fod yn rhaid i bob cyngor bleidleisio ar adroddiad yr IRP. Roedd yn teimlo y byddai'n well pe bai penderfyniad ar adroddiad terfynol yr IRP yn cael ei wneud gan gorff ar wahân neu'r Gweinidog, ac nid gan gynghorwyr.

**Eitem 6 – Y Camau Nesaf a chloi**

7.1 Dywedodd y Cadeirydd eto nad oedd yn debygol y byddai 11 Hydref yn ddyddiad posibl, ac y bydd cyfarfod 30 Tachwedd yn parhau, gyda phapur ychwanegol ar lywodraethu a gweithio mewn partneriaeth.

7.2 Dywedodd y Cadeirydd eu bod wedi cael trafodaeth dda heddiw, ac y dylai'r ysgrifenyddiaeth gydweithio i baratoi ar gyfer y cyfarfod nesaf ac i gytuno ar gyfrifoldeb am ddarnau penodol o waith. Dylai papurau ar gyfer y cyfarfod nesaf gael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl.

7.3 Dywedodd y Cadeirydd yr hoffai anfon y cofnodion allan cyn gynted â phosibl, ac iddynt gael eu cymeradwyo ganddo ef yn gyntaf, gan gynnwys trafodaethau o'r cyfarfod. Bydd trafodaethau pellach ar bob mater ac yna ceir cytundeb a phenderfyniadau ar y ffordd ymlaen.

**Camau Gweithredu**

| |
|---|
| **Materion gweinyddol**<br>• Yr Ysgrifenyddiaeth i sicrhau bod y cofnodion yn cael eu cymeradwyo gan holl aelodau'r grŵp, yn dilyn cymeradwyaeth y Cadeirydd.<br>• Yr Ysgrifenyddiaeth i gyhoeddi papurau cyn yr wythnos ymlaen llaw y cytunwyd arni, pan yn bosibl.<br>• Swyddogion i friffio'r aelodau nad ydynt yn dod o lywodraeth leol ar gefndir a rôl y Grŵp, y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) a'r papur pwerau a hyblygrwydd. |
| **Cylch Gorchwyl a Cynllun Gwaith Drafft**<br>• Yr Ysgrifenyddiaeth i roi diweddaru'r Cylch Gorchwyl o Ddrafft i Gytunwyd.<br>• Yr Ysgrifenyddiaeth i ddiweddaru'r cynllun gwaith yn seiliedig ar drafodaethau yn y cyfarfod. |
| **Papur Parch gan y Naill a'r Llall a Chydgyfrifoldebau**<br>• Ysgrifennydd y Cabinet i ddileu'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd â'r Prif Weinidog a'r Cabinet.<br>• Daniel Hurford i ailedrych ar y papur ac i ystyried trafodaethau'r grŵp, a'r holl aelodau i wneud cynigion i DH eu hystyried. |
| **Y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)**<br>• Cytundeb cyffredinol ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau ond rhai pwyntiau manwl i'w hegluro ymhellach.<br>• Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu'r union eiriad o ran penodi Prif Weithredwyr er gwybodaeth i'r grŵp.<br>• Yr Ysgrifenyddiaeth i gomisiynu papur ar gymhlethdod llywodraethu a gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys pwyslais ar leihau cymhlethdod, ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol. |

**Pwerau a hyblygrwydd i lywodraeth leol – blaenoriaethau cychwynnol**

- Yr Ysgrifenyddiaeth i gyflwyno papur ar y camau nesaf, sy'n adlewyrchu'r drafodaeth gychwynnol.
- Yr Ysgrifenyddiaeth i rannu â'r Grŵp adroddiad yr IRP ar dâl i Gynghorwyr.